Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Llanfachreth
Nos Fawrth, Tachwedd17, 2015 am 7:30 o'r gloch.

Presennol Cynghorwyr: Rhun Prys Jones (Cadeirydd), Mordaf Roberts, Gerallt Griffith, Peredur Jenkins, Huw A. Evans, Emlyn Roberts, Llion Rh. Williams a Geraint Evans. Hefyd Henry M. Edwards.

1.Croeso'r Cadeirydd

Croesawyd pawb oedd yn bresennol.

2. Ymddiheuriadau: Nid oedd yn ymddiheuriadau.

3. Datgan diddordeb.

Nid oedd neb yn datgan diddordeb.

4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Hydref 20, 2015

Cynigwyd ac eiliwyd fod y cofnodion yn gywir.

5. Materion yn codi o'r cofnodion Hydref 20, 2015

Nid oedd materion yn codi.

6. Gohebiaeth

a. Copi o 'Newyddlen - Dalgylch y Gader' oddi wrth Addysg, Cyngor Gwynedd.

Rhoddwyd copi o'r newyddlen i'r aelodau.

b. Llythyr (22/10/2015) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am gyrsiau:

i. Datganoli Gwasanaethau (Saesneg) yn Llyfrgell Rudd, Dolgellau ar ddydd Mawrth, Tachwedd 10 am 6:30yh. Y gost fydd £35 y person.

ii. Cyllid Llywodraeth Leol (Saesneg) yn Theatr y Ddraig, Abermaw ar ddydd Mercher, Tachwedd 18 am 6:30yh. Y gost fydd £35 y person.

c. Llythyr ateb (27 Hydref 2015) oddi wrth Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, Llywodraeth Cymru yn rhoi ateb i lythyr yn Gofnodion Medi 15, 2015:

i. Eitem 10.c.ii. Nid oes cynllun i roi arwyddion ger Hen Laethdy Hufenfa Rhydymain i wella diogelwch ffordd A494. Bydd sylw yn cael ei roi i'r mater wrth baratoi cynlluniau ar gyfer blwyddyn ariannol nesaf.

ii. Eitem 10.c.iiii. Maent wedi cysylltu â Heddlu Gogledd Cymru i ofyn iddynt gymryd camau priodol gyda cheir sy'n parcio ar ochr ffordd A494 wrth gwt BT ger Troedyrhiw, Rhydymain.

ch. Llythyr (28.10.2015) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bydd eu cyfarfod Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn Pafiliwn Criced, Dolgellau ar Tachwedd 25 2015 am 7.00yh. Bydd Swyddog o gwmni Cartrefi Cymunedol Gwynedd yn bresennol yn rhoi cyflwyniad ar waith y cwmni. Amgáu mae cofnodion cyfarfod y pwyllgor oedd ar 23/09/2015.

d. Llythyr (Hydref 2015) oddi wrth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, Cyngor Gwynedd. Maent eisiau gwybodaeth am lefydd mae pobl yn eu defnyddio i gysgu ar y strydoedd.

dd. Llythyr (3/11/2015) oddi wrth Marie Curie. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

e. Dogfen drafft (Tachwedd 2015) oddi wrth Ymgynghoriad Polisi Trwyddedu, Cyngor Gwynedd yn ymwneud a 'Datganiad o Bolisi Trwyddedu' - Rhagfyr 2015-Rhagfyr 2020. Mae polisi presennol i Rhagfyr 2015 yn dod i ben ac mae wedi ei diweddaru sydd yn golygu ymgynghoriad ffurfiol gyda sefydliadau perthnasol.

f. Llythyr (12/11/2015) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am gyfle i ddweud eich barn am blismona yn Clwb Golff Dolgellau ar 14/01/2016 am 6.00yh. Bydd Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, Mr Winston Roddick yn bresennol.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Ceisiadau cynllunio:

i. NP5/54/356B. Gosod twrbin gwynt ar twr 12m o uchder, cyfanswm o 14.75m ar frig y llafn. Tir yn Cae Glas, Llanfachreth.

Penderfynwyd cefnogi'r cais. (5/11/2015)

b. Deddf Cynllunio Gwlad a Thref, 1990. Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref, (Gweithdrefn Rheoli Datblygiad) (Cymru) 2012.

i. Cais NP5/54/243E. Mae'r Awdurdod yn caniatáu Uwchraddio gorsaf telathrebu presennol. Safle CTIL 121285, Fronalchen, Dolgellau.

c. Llythyr (Tachwedd 13 2015) yn gwahodd cynrychiolydd o'r Cyngor i Ganolfan Gymunedol Abergynolwyn ar ddydd Gwener, Rhagfyr 4 am 9.30yb neu rhywbryd yn ystod y dydd i weld y planetariwm. Bydd gyhoeddiad o bwys cenedlaethol a rhyngwladol ar statws Gwarchodfa Awyr Dywyll Ryngwladol.

8. Materion Ariannol

a. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29 Hydref 2015: £1,135.32.

b. Balans yn y banc ar 29 Hydref 2015: £7,734.71.

9. Adroddiad Cynghorydd Peredur Jenkins

a. Cafwyd cyfarfod gyda swyddogion Priffyrdd a Cyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn â Ffordd Lefel. Mae rhan fwyaf o waith clirio'r coed wedi ei gwblhau ond i gwblhau'r gwaith mae disgwyl i'r gwaith cael ei orffen yn y gwanwyn.

b. Cafwyd trafodaeth ar Her Gwynedd.

c. Cafodd trigolion Llanfachreth cyfarfod yn yr Ysgol ar sut all yr Ysgol, y Neuadd Bentref a'r Eglwys cael eu defnyddio yn effeithiol. O'r cyfarfod bydd holiadur yn cael ei dosbarthu i'r gymuned i gael syniadau am ddefnyddio'r adeiladau.

Roedd syniad i'r Cyngor Cymuned cyfrannu at gostau'r cyfieithydd y cyfarfodydd bydd yn cael eu cynnal.

10. Unrhyw fater arall

a. Cofiwch am y cyfarfod i drafod cael cynghorau dalgylch y Gader i gyd weithio fel sy'n cael ei wneud yn ardal Penllyn. Bydd cyfarfod yn Neuadd Bentref y Brithdir ar nos Lun, Ionawr11, 2016 am 7.00yh. i drafod y mater.

Penderfynwyd cynnal cyfarfod y Cyngor ar ddydd Llun Ionawr 4, 2016 am 7.00yh yn Neuadd Bentref Brithdir.

b. Penderfynwyd rhoi gwybod i Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd mae angen:

i. trwsio polyn arwydd sydd wedi torri ar ffordd A494 rhwng troad i Dolserau a Dolgellau.

ii. clirio dail ar y ffordd rhwng Troedyrhiw a Eisingrug, Rhydymain.

iii. pyst pren newydd i 'crash barriers' sydd ar y rhiw wrth Capel y Ffrwd, Llanfachreth.

iiii. gwagu cwterydd i glirio dŵr ar yr A494 rhwng Drwsynant a Hywel Dda.

Llofnod: Dyddiad: